

gyrfaoedd
BLASUS
mewn bwyd a diod
CYMRU

**CANLLAW
ATHRAWON**

**JUICY
JOBS!**

**USE
YOUR
LOAF!**

CY.TASTYCAREERSWALES.ORG.UK

Annwyl Athro Gyrfaoedd,

Croeso i rifyn cyntaf canllaw athrawon Gyrfaoedd Blasus Bwyd a Diod Cymru. Mae'r fenter Gyrfaoedd Blasus wedi cael ei ddatblygu er mwyn ymgysylltu â phobl ifanc ac i hyrwyddo'r cyfleoedd gwaith da yn y diwydiant bwyd a diod fel gyrfaoedd posib gyda chyflogau proffidiol a rhagolygon gyrfa gwych ar gyfer yr hir dymor.

Mae'r rhaglen Gyrfaoedd Blasus yn seiliedig ar ddefnyddio astudiaethau achos go iawn o bobl ifanc sydd â swyddi da o fewn y diwydiant. Mae'r astudiaethau achos yn proffilio eu taith addysgol hyd at eu sefyllfa presennol, eu swydd o ddydd i ddydd, amrediad cyflog a'u dyheadau ar gyfer y dyfodol.

Rydym wedi cynyddu nifer a mathau'r astudiaethau achos yn sylweddol yn y pecyn athrawon hwn er mwyn rhoi gwell syniad i chi a'ch myfyrwyr o'r cyfleoedd eang ac amrywiol sydd ar gael o fewn y diwydiant bwyd a diod. Mae'r astudiaethau achos yma hefyd ar gael ar ein gwefan rhyngweithiol www.tastycareerswales.org.uk.

Mae rhai o'r bobl ifanc sy'n cael eu cynnwys yn y pecyn hwn hefyd ar gael fel llysgenhadon ar gyfer y diwydiant bwyd a diod i ymweld ag ysgolion a cholegau i siarad gyda'ch myfyrwyr ynglŷn â gyrfaoedd yn y diwydiant bwyd a diod. Mae gan bob un o'r llysgenhadon stori ddiddorol i'w hadrodd am eu llwybr gyrfa a'u profiad yn y diwydiant.

Rhestr Wirio

O fewn eich canllaw athrawon dylech ganfod y canlynol:

- Taflen Ffeithiau Ystadegau'r Diwydiant
- Astudiaethau Achos Llysgenhadon
- Poster Sut i Wneud Menyn
- Map Swyddi Gyrfaoedd Blasus



Ariennir yn Rhannol gan
Lywodraeth Cymru
Part Funded by
Welsh Government

Mae'r holl ddeunyddiau ar gael i'w lawr lwytho yn y Gymraeg a'r Saesneg yma cy.tastycareerswales.org.uk/resources

DATBLYGU DELWEDD Y DIWYDIANT

Mae'r diwydiant Bwyd a Diod yng Nghymru yn le cyffrous i weithio. Mae gennym enw da haeddiannol am ein cynnyrch safonol ledled y byd ac rydym yn cael ein cydnabod am ein hansawdd a'n harloesedd.

Cyfeirir ato'n aml fel "o'r fferm i'r fforc" neu o'r "giât i'r plât", ac mae'r diwydiant Bwyd a Diod yn ymdwneud â thyfu a chynhyrchu bwyd (cynhyrchu cynradd) hyd at weithgynhyrchu, prosesu ac adwerthu bwyd.

P'un a yw eich myfyrwyr yn ystyried mynd yn wyddonydd, yn beiriannydd, yn dymuno gweithio ym maes marchnata neu fel ffotograffydd, mae nifer fawr o bethau cyffrous y gallent ei wneud yn y diwydiant bwyd a diod.

O ddylunio robotiaid uwch-dechnoleg i ddatblygu cynnyrch newydd a phopeth yn y canol, mae'r diwydiant Bwyd a Diod yn un sy'n symud yn sydyn, yn greadigol ac yn arloesol. Mae un peth yn sicr, mae'n rhaid i bawb fwyta, felly bydd cwsmeriaid ar gael i'r diwydiant am byth a bydd angen gweithlu i allu bodloni anghenion y cwsmeriaid hynny.

A WYDDECH CHI?

Mae gan y Gadwyn Cyflenwi Bwyd a Diod yng Nghymru drosiant o £15.5bn ac mae'n cyflogi dros 220,000 o bobl.

PA MOR FAWR YW'R DIWYDIANT BWYD A DIOD YNG NGHYMURU?

Mae'r diwydiant Bwyd a Diod yn bwysig iawn yng Nghymru, o ran nifer y swyddi sy'n cael eu darparu, yr incwm sy'n cael ei greu a'i gyfraniad i dwristiaeth.

Mae oddeutu 445 o fusnesau yn gweithredu o 520 o safleoedd yn y sector Bwyd a Diod yng Nghymru. Mae'r busnesau hyn yn cyflogi dros 220,000 o bobl; 35% ohonynt yn cael eu cyflogi mewn manwerthu, 25% mewn amaethyddiaeth a 10% mewn gweithgynhyrchu.

AM FWY O WYBODAETH EWCH I: CY.TASTYCAREERSWALES.ORG.UK

 [FACEBOOK.COM/TASTYCAREERS](https://www.facebook.com/TASTYCAREERS)  [@TASTYCAREERS](https://twitter.com/TASTYCAREERS)



FAINT YW GWERTH Y DIWYDIANT BWYD A DIOD?

Mae'r Gadwyn Cyflenwi Bwyd a Diod yn cyfrannu £15.5bn i'r economi yng Nghymru; mae'r ffigwr hwn wed cynyddu'n flynyddol ac mae'n parhau i dyfu.

A WYDDECH CHI?

Roedd allforian Bwyd a Diod o Gymry merth £302m yn 2014. Y cynnyrch a allforiwyd fwyaf o ran gwerth oedd cynnyrch Llaeth, sy'n gyfwerth â £145.2 bob blwyddyn.

PAM DILYN GYRFA YN Y DIWYDIANT BWYD A DIOD?

Mae'r diwydiant Bwyd a Diod yng Nghymru yn cynnwys amrediad eang o yrfaeodded yn ymwneud ag amaethyddiaeth, cynhyrchu, logisteg, gwerthiant, marchnata, cyllid a datblygu cynnyrch, a phob un yn gofyn am wahanol lefelau sgiliau. Mae'n debygol y bydd y diwydiant Bwyd a Diod yn tyfu'n gyflym wrth i alw byd-eang am ein cynnyrch gynyddu.

Er mwyn ymateb i heriau'r dyfodol o ran diogelwch bwyd a newid hinsawdd, byddwn yn defnyddio mwy o dechnoleg awtomatig ac arloesol, a bydd y rhain yn arwain y galw am beirianwyr, gwyddonwyr a mathemategwyr - bydd arnom angen unigolion medrus iawn i'n cynorthwyo i oresgyn yr heriau hyn.

Bydd y pwysau am syniadau newydd a chynnyrch fwy iach yn sicrhau bod swyddi da ar gyfer pobl o bob oedran yn y diwydiant. Beth am ystyried y manteision:

- Cyfleoedd ar gyfer y rhai sydd â chymwysterau ar bob lefel
- Mae cyfleoedd enfawr ar gyfer datblygiad gyrfa
- Gyrfaoedd sy'n rhoi boddhad gyda chyfleodd i symud ymlaen yn sydyn
- Mae cyflogau'r diwydiant yn uchel ar gyfartaledd o'u cymharu â diwydiannau eraill
- Amgylchedd sy'n symud yn sydyn sy'n newid yn barhaus er mwyn gallu bodloni gofynion y cwsmer
- Diwydiant sy'n tyfu

A WYDDECH CHI?

Mae'r cyflog llawn amswer cyfartalog yn y diwydiant Bwyd a Diod yn £19,600.

DAMCANIAETH


Nid yw'r sector **Bwyd a Diod** yn cynnig cyfleoedd da ar gyfer gyrfa

REALITI



Mae **RHAGOLYGNON GYRFA HIR DYMOR** da yn ein diwydiant. Mewn gwirionedd, mae angen mwy o bobl i weithio yn y sector. Erbyn **2020**, bydd y Gadwyn Cyflenwi Bwyd angen **4,000 o WEITHWYR NEWYDD**, a bydd y mwyafrif o'r rhain ar gyfer **dyletswyddau rheolaeth** a swyddi proffesiynol.

Y tri is-sector mwyaf yng Nghymru yw



Mae amrediad eang o yrfaeoddd posib gwych i'w dewis. Gallwch fod yn **WYDDONYDD BWYD** neu'n **DECHNOLEGYDD**, yn ymwneud â **DIOGELWCH BWYD** a **DATBLYGU CYNNYRCH BWYD NEWYDD**, neu beth am weithio ym maes **SICHRHAU ANSAWDD** gyda chyfrifoldeb dros sicrhau bod y bwyd yr ydym yn ei fwyta o'r ansawdd gorau posib? Beth am weithio fel **PEIRIANNYDD**, **TECHNEGYDD**, ym maes **MARCHANATA** neu **FATERION CORFFORAETHOL**? Mae'r rhestr o gyfleoedd gwaith yn ddi-ddiwedd!

Ceir hefyd **amrediad eang o sectorau** o fewn y diwydiant gweithgynhyrchu bwyd a diod y byddech yn gallu gweithio ynddynt, ac mae'r sectorau mwyaf yn cynnwys **CIG, POBI** a **PHRYDAU WEDI'U PARATOI**.

Mae gan y diwydiant Gweithgynhyrchu Bwyd a Diod yng Nghymru drosiant o

£4.3bn

DAMCANIAETH

Mae'r sector Bwyd a Diod ar ei hôl hi ac yn hen ffasiwn

REALITI



Mae'r sector Bwyd a Diod yn **GYFFROUS** ac yn **ARLOESOL**. Rydym yn buddsoddi **MILIYNAU** o bunnoedd bob blwyddyn ar **YMCHWIL** a **DATBLYGIAD**, ac yn lansio llawer iawn o **GYNNYRCH NEWYDD**.



Defnyddir **TECHNOLEG** i fodloni gofynion cynyddol y cwsmeriaid i fwyta amrywiaeth eang o fwydydd **O ANSAWDD UCHEL**. Rydym wedi buddsoddi yn y **CYFARPAR DIWEDDARAF** er mwyn sicrhau bod y bwyd yr ydym yn ei fwyta yn flasus, yn cael ei **GYNHYRCHU'N DDIOGEL**, ac yn ymddangos ar silffoedd yr archfarchnadoedd ar amser.



Er mwyn i ni allu llwyddo i'r fath raddau, mae'n bwysig iawn eni bod yn denu pobl **FEDRUS** sydd wedi'u **HYFFORDDI** a fydd yn gallu sicrhau bod y **CYFARPAR** a ddefnyddir i gynhyrchu ein bwyd yn **GWEITHIO'N EFFEITHIOL** ac yn **EFFEITHLON**, ac yn cael ei **GYNNAL A'I GADW** yn y modd cywir.

ASTUDIAETH ACHOS

ENW: STEFFAN EVANS

TEITL SWYDD: CIGYDD AC ARWEINYDD

LLINELL DAN HYFFORDDIANT

CYFLOGWR: DUNBIA

gyrfaoedd
BLASUS
mewn bwyd a diod
CYMRU

Mae fy nghyflog yn cael ei adolygu wrth i mi wella ac ehangu fy sgiliau ymarferol a chymryd mwy o gyfrifoldeb.

BETH MAE CIGYDD AC ARWEINYDD LLINELL DAN HYFFORDDIANT YN EI WNEUD?

Mae Arweinydd Llinell dan Hyfforddiant yn sicrhau bod y cynhyrchion yn lifo'n esmwyth - gan wneud yn siŵr bod y cwmni'n cyrraedd safonau uchel mewn cigyddiaeth gan ddarparu cynhyrchion o safon uchel i gwsmeriaid. Mae cigydd yn sicrhau bod yr holl esgyrn yn lân ar ôl cael eu tynnu i gynhyrchu cynhyrchion sy'n cwrdd â gofynion y cwsmer.

SUT DDAETHOCH CHI I WNEUD Y SWYDD YMA?

Wedi i mi adael yr ysgol yn 16 oed, dechreuais fy ngwaith gyda Dunbia yn yr adran Llocio; sef cam cyntaf y broses, pan dderbynnir ŵyn byw i'r safle. Yn dilyn ymlaen o hynny llwyddais i gwblhau rhaglen fewnol yr Academi Hyfforddiant mewn Cigyddiaeth, gan roi llwybr gyrfaol i mi ar gyfer y dyfodol. Wrth i'm sgiliau a'm gwybodaeth ddatblygu rwy'n gweithio fel Arweinydd Llinell dan Hyfforddiant erbyn hyn a fydd, gobeithio, yn arwain at ddod yn Arweinydd Llinell yn y dyfodol ac efallai'n rheolwr.

BETH OEDD EICH CYFLOG CYCHWYNNOL?

Fy nghyflog cychwynnol oedd £6.31 yr awr - roedd hynny pan oeddwn wedi fy nghyflogi yn yr Adran Llocio.

ERS FAINT YDYCH CHI WEDI BOD YN GWNEUD EICH SWYDD?

Rwyf wedi cael fy nghyflogi gan Dunbia ers oddeutu 18 mis; yn yr Adran Llocio am 2 fis cyn ymuno â rhaglen yr Academi Hyfforddiant mewn Cigyddiaeth am 3 mis ac yna fy nghyflogi fel cigydd am flwyddyn ac yn olaf symudais ymlaen i fod yn arweinydd llinell dan hyfforddiant.

YDY EICH CYFLOG WEDI NEWID ERS HYNNY - AC OS NAD, YDYCH CHI'N RHAGWELD Y BYDD EICH CYFLOG YN CYNYDDU?

Fy nghyflog presennol yw £8 yr awr, sy'n wych i rywun o fy oedran i. Rwy'n gobeithio gweld cynnydd pellach yn y dyfodol. Mae fy nghyflog yn cael ei adolygu wrth i mi wella, ac ehangu fy sgiliau ymarferol a chymryd mwy o gyfrifoldeb.



CIGYDDIAETH

TASTYCAREERSWALES.ORG.UK

ASTUDIAETH ACHOS

ENW: CHRISTIAN DAVIES

TEITL SWYDD: TECHNEGYDD PEIRIANNEG AML SGIL

CYFLOGWR: GRŴP BWYD FINSBURY/MEMORY
LANE CAKES CAERDYDD

CYMWYSTERAU: BTEC LEFEL 3 MEWN GWEITHGYNHYRCHU A
GWEITHREDOEDD A CHYNNAL A CHADW / NVQ LEFEL 3 MEWN
PEIRIANNEG DRYDANOL / HNC MEWN OFFERYNIAETH A RHEOLI
/ HND MEWN PEIRIANNEG DRYDANOL AC ELECTRONIG / BSC AR
HYN O BRYD MEWN PEIRIANNEG DRYDANOL AC ELECTRONIG

gyrfaeodd
BLASUS
mewn bwyd a diod

CYMRU

Y peth da am wneud prentisiaeth yw eich bod yn ennill cyflog wrth ddysgu ac rydych bron gant y cant yn sicr o gael swydd ar ôl cwblhau eich prentisiaeth.

BETH MAE TECHNEGYDD PEIRIANNEG AML SGIL YN EI WNEUD?

Mae technegydd peirianneg aml sgil yn gwneud gwaith cynnal a chadw drwy'r ffatri gyfan, yn ymateb i alwadau pan fydd rhywbeth yn torri ac hefyd yn gwneud gwaith cynnal a chadw ar yr adeiladau. Gallwn fod yn gwneud unrhyw beth o waith trydanol, mecanyddol, weldio neu beirianwaith.

DISGRIFIWCH EICH SWYDD MEWN 20-25 O EIRIAU

Yn fy swydd rwy'n gwneud gwaith cynnal a chadw wedi'i gynllunio ar amrywiol beiriannau, rhewgelloedd a phoptai sy'n cynnwys gwaith mecanyddol a thrydanol. Pwrpas hyn yw sicrhau bod peiriannau'r ffatri'n perfformio ar eu gorau a bod y cyfarpar yn cael eu cynnal i'r safon orau bosibl. Gall hyn fod yn anodd am fod y safle'n un 24/7 ac felly dydy llinellau cynhyrchu ddim yn stopio'n hir. Dw i'n gweithio mewn tîm sy'n ymateb i alwadau am gymorth pan fydd offer yn torri gynted ag y bydd y broblem yn codi; drwy ymateb a thrwsio problem yn gyflym gallwn arbed gwastraffu arian.

AR ÔL I CHI GYMHWYSO, A GYMERODD HI LAWER O AMSER I CHI GANFOD SWYDD?

Y peth da am wneud prentisiaeth yw eich bod yn ennill cyflog wrth ddysgu ac rydych bron gant y cant yn sicr o gael swydd ar ôl cwblhau eich prentisiaeth.

BETH YW'R PETH GORAU AM EICH SWYDD?

Y peth gorau am fy swydd yw ei bod hi'n heriol ac mae rhywbeth gwahanol i'w wneud drwy'r amser.

BETH OEDD EICH CYFLOG CYCHWYNNOL?

Fy nghyflog cychwynnol oedd £12,000 ond mae wedi cynyddu drwy gydol y brentisiaeth.



PEIRIANNEG

TASTYCAREERSWALES.ORG.UK

CY.TASTYCAREERSWALES.ORG.UK

ASTUDIAETH ACHOS

ENW: CRAIG MESSRUTHER

TEITL SWYDD: CYDLYNYDD DATBLYGU

CYNNYRCH NEWYDD

CYFLOGWR: GRŴP BWYD 2 SISTERS

QUALIFICATION: BSC MEWN IECHYD, YMARFER A CHWARAEON

YSTOD CYFLOG: £21,000

BETH MAE CYDLYNYDD DATBLYGU CYNNYRCH NEWYDD YN EI WNEUD?

Mae Cydlynnydd Datblygu Cynnyrch Newydd yn cefnogi'r prif dîm Datblygu Cynnyrch Newydd i ddatblygu cysyniadau cynnyrch ac i ymchwilio'r opsiynau pecynnu mwyaf addas. Rwyf hefyd yn edrych ar flas, arogl, golwg a theimlad y cynnyrch yn y geg, oes ar y silff a llwybrau cludo (pa mor hir all cynnyrch aros yn ffres ac o fewn dyddiad derbyniol wrth gael ei gludo rhwng y gwneuthurwr a'r cwsmer) ar gyfer unrhyw gynnyrch newydd. Rwyf hefyd yn cynorthwyo gyda datblygu unrhyw fanylebau newydd a rhoi cefnogaeth Dechnegol a Gweithredol i'r adrannau gwerthiant a marchnata.

SUT CAWSOCH CHI'R SWYDD HON?

Dechreuais gyda 2Sisters fel Technegydd Labordy. O'r fan honno, cefais gyfle i symud i'r adran Sicrhau Ansawdd, lle bûm yn cynorthwyo'r Cydlynnydd Datblygu Cynnyrch Newydd oedd yno ar y pryd. Ar ôl blwyddyn, gadawodd y cydlynnydd blaenorol a chefais gyfle i ymgeisio am y swydd.

BETH YW'R PETH GORAU AM EICH SWYDD?

Y peth gorau am swydd y Cydlynnydd Datblygu Cynnyrch Newydd yw cael rhyddid i ddatblygu cynnyrch nad oes neb arall wedi eu hystyried - a'u gweld yn yr archfarchnadoedd.

BETH OEDD EICH CYFLOG CYCHWYNNOL?

£21,000 y flwyddyn

BETH FYDDAI EICH CAR DELFRYDOL?

Bugatti Veyron

gyrfaeodd
BLASUS
mewn bwyd a diod
CYMRU

The best thing about the NPD Coordinator job is having the freedom to develop products that nobody else has thought about - and see them in the supermarkets.



DATBLYGU
CYNNYRCH
NEWYDD

TASTYCAREERSWALES.ORG.UK

ASTUDIAETH ACHOS

ENW: EMILY CHURCH

TEITL SWYDD: GWEITHIWR GRADDEDIG

MEWN GWEITHREDIADAU

CYFLOGWR: DUNBIA CYMRU

CYMWYSTERAU: BSC (ANRH) MENTER GWLEDIG A
RHEOLI TIR

gyrfaeodd
BLASUS
mewn bwyd a diod
CYMRU

Mae'n ddiwydiant
gwych am fod cymaint
o amrywiaeth a
chyfleoedd gwych.

BETH MAE GWEITHIWR GRADDEDIG MEWN GWEITHREDIADAU YN EI WNEUD?

Fel gweithiwr graddedig, rwyf ar gynllun hyfforddi 2 - 3 mlynedd, lle mae Dunbia yn fy rhoi ymhob adran am nifer o wythnosau, i ddod i ddeall yr adran ei hun a sut mae'n cyfrannu at y cynnyrch terfynol.

SUT DDAETHOCH CHI I WNEUD Y SWYDD YMA?

I ddechrau roeddwn wedi holi aelod o staff ar stondin Dunbia yn Ffair Aeaf Frenhinol Cymru ynglŷn â swyddi gwag. Rwyf yn ymddiddori mewn Amaethyddiaeth a'r gadwyn fwyd, ac am fy mod yn dod o gefndir ffermio defaid, roedd Dunbia yn enw roeddwn wedi ei glywed yn aml. Gwnes gais am swydd wag, ac es drwy'r broses gyfweled dau gam ac roeddwn yn ddigon ffodus i gael fy newis ar gyfer y rôl i Raddedigion.

PA GYNGOR FYDDECH CHI'N EI ROI I RYWUN SY'N YSTYRIED DEWIS YR YRFA YMA?

Peidiwch â bod ofn mynd at gwmnïau mewn sioeau a ffeiriau. Mae hyn yn dangos eich bod yn awyddus a bod gennych ddi-ddordeb. Mae'n ddiwydiant gwych am fod cymaint o amrywiaeth a chyfleoedd gwych.

BETH YW'R PETH GORAU AM EICH SWYDD?

Rwy'n teimlo mai'r peth gorau yw'r amrywiaeth o fewn y safle ar hyn o bryd. Mae pob diwrnod yn wahanol ac a fy mod yn symud rhwng adrannau'n aml, mae rhywbeth newydd i ymdrin ag o ac i ddysgu amdano drwy'r amser.

WNAETHOCH CHI BRYNU RHYWBETH ARBENNIG GYDA'CH CYFLOG CYNTAF?

Roedd yn rhan o flaendal a roddais ar gyfer prynu car.



GWEITHREDIADAU
CYNHYRCHU

TASTYCAREERSWALES.ORG.UK

CY.TASTYCAREERSWALES.ORG.UK

ASTUDIAETH ACHOS

ENW: ROBERT POWELL

TEITL SWYDD: GWEITHIWR GRADDEDIG
MEWN GWEITHREDIADAU

CYFLOGWR: DUNBIA

CYMWYSTERAU: BSC MEWN AMAETHYDDIAETH GYDAG
ASTUDIAETHAU BUSNES; DIPLOMA ÔL-RADDEDIG -
RHEOLI'R AMGYLCHEDD

gyrfaoedd
BLASUS
mewn bwyd a diod
CYMRU

Fy nod yw dod yn
aelod gwerthfawr
o'r Tîm Rheoli
Uwch.

SUT DDAETHOCH CHI I WNEUD Y SWYDD YMA?

Am fod mod yn dod o gefndir ffermio ac wedi cael profiad gwaith mewn siop gig leol, mae'r diwydiant cig wedi apelio ataf erioed. Mae'r rhaglen hon wedi rhoi'r cyfle i mi brofi pob agwedd o'r busnes ac wedi fy helpu i benderfynu pa yrfa roeddwn eisiau ei dewis.

PA GYNGOR FYDDECH CHI'N EI ROI I RYWUN SY'N YSTYRIED DEWIS YR YRFA YMA?

Dewch i wybod am yr HOLL gyfleoedd sydd ar gael - peidiwch â bod ofn gwaith caled a neidiwch i mewn i'r gwaith. Mae cwmnïau'n awyddus i ddyrchafu pobl sy'n dangos potensial.

BETH YW'R PETH GORAU AM EICH SWYDD?

Dysgu sgiliau ymarferol am y ffordd mae'r busnes yn gweithio, a chael profiad o'r ffordd mae meysydd yn cael eu rheoli. Rydych hefyd yn datblygu dealltwriaeth o gysylltiad a pherthynas rhwng adrannau sy'n gadael i chi wneud sylwadau a syniadau gwella adeiladol.

BETH OEDD EICH CYFLOG CYCHWYNNOL?

£18,000

YN EICH BARN CHI, LLE FYDDWCH CHI MEWN PUM MLYNEDD?

Hoffwn symud ymlaen i rôl rheoli iau yn y tymor byr, gan gymryd y wybodaeth a'r profiad a gefais wrth raddio a datblygu fy sgiliau rheoli ymhellach. Wedi hynny hoffwn symud i mewn i rôl reoli uwch ac, yn y pendraw, fy nod yw dod yn aelod gwerthfawr o'r Tîm Rheoli Uwch.



CIGYDDIAETH

TASTYCAREERSWALES.ORG.UK

SUT MAE GWNEUD MENYN?



...Nid yw mor syml ag y byddech yn ei feddl...

Mae gwartheg o fuchesi laeth lleol yn cynhyrchu laeth sy'n cael ei brynu gan **BRYNWYR** ar ran yr hufenfa. Mae'r laeth ffres yn cael ei brofi gan **DECHNOLEGWYR BWYD** i sicrhau ei fod o ansawdd da ac yna mae'r **RHEOLWR CYNHYRCHU** yn gwahanu'r laeth i hufen a sgim gan ddefnyddio offer a ddyluniwyd gan **BEIRIANWYR BWYD**. Caiff yr hufen ei basteureiddio, aeddfedu a'i gorddi i ffurfio menyn a laeth enwyn gan ddefnyddio dulliau wedi'u hymchwilio a'u profi gan **WYDDONWYR** a **THECHNOLEGWYR BWYD**. Yn y cyfamser, bydd y **TÎM DATBLYGU CYNNYRCH** wedi ymchwilio a dewis y math gorau o ddeunydd pacio i gadw'r menyn yn ffres ac mae'r **TÎM MARCHNATA/GWERTHANT** yn sicrhau ei fod yn apelio atoch chi, y cwsmer. Trwy gydol y broses, mae'r **RHEOLWR SICRHAU ANSAWDD** yn gwirio'r broses a'r menyn i sicrhau ei fod yn ddiogel i'w fwyta cyn iddo gael ei anfon i'w ddsbarthu a'i gludo gan y **TÎM DOSBARTHU** i'r siop yn barod ar gyfer eich basged siopa.



A CHITHAU'N MEDDWL MAI DIM OND YCHYDIG O LAETH A HUFEN OEDD EI ANGEN!

I ganfod mwy am y math o gyfleoedd gyrfa sydd ar gael o fewn y Diwydiant Gweithgynhyrchu Bwyd a Diod, ewch i:

CY.TASTYCAREERSWALES.ORG.UK



DIWYDIANT BWYD A DIOD CYMRU



TROSIANT O
£15.5BN

TRWY GADWYN
CYFLENWI BWYD
A DIOD CYMRU

222,400

WEDDŪ CYFLOGI YM MAES:

ADWERTHU A CHEFFANWERTHU



76,700

ARWYO



69,300

AMAETHYDDIAETH



54,000

GWEITHGYNHYRCHU



22,400



£5.7BN
YN 2013

GWAELODLIN TROSIANT SECTOR
BLAENORIAETH BWYD A AMAETH CYMRU

£4.3BN
GWEITHGYNHYRCHU

£1.4BN
AMAETHYDDIAETH



TARGED
DIWYDIANT
£7BN

O DROSIANT YN Y SECTOR
BLAENORIAETH ERBYN 2020



£128M

GWERTHIANT ADWERTHU
PRIF FRANDIAU
CYMRU
YN Y DG

520

UNEDAU BUSNES
CYNHYRCHU BWYD
A DIOD



15%

SY'N GANOLIG
NEU'N FAWR

